**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

07 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23 – Pwysau yn y GIG

Ar 30 Mehefin, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23.

Yn ystod y sesiwn hon, trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig y pwysau presennol y mae'r GIG yn eu hwynebu a'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i helpu â'r adferiad ar ôl y pandemig. Hoffwn dynnu eich sylw at yr argymhellion a ganlyn a nodwyd yn ein hadroddiad:

> Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull hirdymor strategol o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus i liniaru pwysau staffio yn y dyfodol gyda'r nod hirdymor o wneud gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.

> Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer adferiad y GIG yn cael ei ddefnyddio a'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y cyllid ychwanegol y mae wedi ymrwymo i'w ddarparu dros dymor y Senedd hon.

> Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro pam nad oedd byrddau iechyd lleol yn gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 yn llawn i gefnogi adferiad y GIG a lleihau'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, yn ogystal â nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y gellir targedu dyraniadau'r flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol yn briodol i gyflawni ei huchelgeisiau a darparu gwerth am arian.

O ystyried bod gan eich Pwyllgor ddiddordeb yn y meysydd hyn, efallai yr hoffech drafod y materion hyn yn fanylach gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu Weinidogion priodol eraill, wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn ddiweddarach eleni.

Bydd ein hadroddiad ar Gyllideb Atodol 2022-23 yn cael ei gyhoeddi ar 11 Gorffennaf a bydd yn llywio'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf.

Byddwn yn rhannu ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion â chi ar ôl iddo ddod i law.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.